# Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

**358- Beirniadaeth Rhyddiaith Blwyddyn 7 i ddysgwyr**

**Beirniad – Carys Lake**

Diolch i'r pump ddanfonodd eu gwaith. Biti na fasa' yna fwy wedi cystadlu gan i'r testun fod yn un bach da i ddisgyblion o'r oedran yma. Ond, er hynny, roedd darllen gwaith y pump yma yn hyfryd a gafael dda gan y pump ar y Gymraeg.

Mae BLODEUWEDD yn mwynhau amrywiaeth o bethau o nofio a phêl droed i siopa, darllen a garddio gyda mamgu, gyda'r beirniad yn cytuno bod cinio rhôst yn flasus iawn!

Y gath sy'n diddanu CULHWCH ac yn gwneud iddo chwerthin o hyd. Mae'n ddrymiwr ac yn gitarydd, ac yn "mwynhau dysgu caneuon newydd".

Dewisodd un ymgeisydd ysgrifennu ar ffurf cyfweliad gydag Ishaa Bhogal. Mae'n mynegi barn yn glir gan roi rhesymau am y farn honno. Mae'n mwynhau chwaraeon ac yn arbennig dawnsio, ac efallai bod yma egin cogydd enwog rhyw ddydd!

Er mai dim ond un cymal ydy ymgais ARIANRHOD, mae'n rhestr hir, ddifyr o bethau mae'n eu mwynhau. Dyma berson prysur, gyda diddordebau o bob math. Llwyddodd i ddefnyddio ansoddeiriau gwahanol ar ddiwedd pob brawddeg, tipyn o gamp! Hoffais y frawddeg olaf "Dw i'n mwynhau bywyd achos mae'n anhygoel"

Mi wnes i fwynhau ymgais STELLA FFORDE yn fawr iawn. Mae'r disgrifiad o'i thaith gyda Jo-Jo, ei cheffyl, yn hudolus iawn, pan yw'n "neidio dros natur, neidio dros y creigiau a charlamu ar draws y grug porffor". Disgrifia'r hyn a wêl ar y mynydd wrth farchogaeth gan ddefnyddio cymariaethau hyfryd.

Llongyfarchiadau i'r pump ohonoch. Daliwch ati i gystadlu.

1af - Stella Fforde

2il - Moyosore Yusuf

3ydd - Maisie Podmore